

DOLEN Y TAB 103

22 – 23 Ebrill 2022

Oedfa Fore Sul 24 Ebrill am 11

Yng ngofal Allan James
gydag Eleri Huws yn cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF

Mai

- 1 Yng ngofal Ann ac Emlyn Davies
- 8 Yng nghwmni'r Parchedig Aled Edwards a Iestyn Morris
- 15 Sul Cymorth Cristnogol

Hefyd ddydd Sul 24 Ebrill

12:00 Oedfa Radio Cymru

Oedfa yng ngofal Beth Davies, Bro Aeron Mydr.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-Fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

TREFNIADAU'R OEDFA BORE SUL

Am y tro, disgwylir i bawb wisgo mwgwd ar y llawr gwaelod, ond os nad ydych am wisgo mwgwd yna gallwch eistedd yn y galeri. Bellach nid oes gofyn i chi archebu sedd ymlaen llaw.

Rhestr Flodau

Gair i'ch atgoffa bod y rhestr flodau am y flwyddyn 2022 wedi ei gosod yn ei lle arferol ar yr hysbysfwrdd yng nghyntedd y capel. Mae croeso i chi dorri eich enw ar gyfer Sul sy'n gyfleus. Ar hyn o bryd, mae nifer fawr o Suliau gwag y medrwrch ddewis o'u plith.

DIOLCH YN FAWR



Diolch yn fawr i bawb gyfrannodd at y casgliad Wyau Pasg. Fe fyddwch chi'n falch o glywed bod John wedi dosbarthu dros 250 rhwng Cymorth i Ferched Cymru, hosteli elusen Pobl, a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, gan ddod ag ychydig o lawenydd i lawer o bobl sy'n wynebu amgylchiadau anodd.

Diolch yn fawr i chi am eich haelioni.
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol.

'Teilwng yw yr Oen'

5.30 Pnawn Sul 24 Ebrill
Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth

Yng nghwmni Delwyn Siôn,
Côr y Capel, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths,
gydag unawdwr ac offerynwyr gwadd.

CROESO CYNNES I
AELODAU CAPEL Y TABERNACL

CASGLIAD I APÊL DEC WCRÁIN

RHANDIROEDD Y TABERNACL: NEWYDDION BRYG

Ar drothwy'r tymor tyfu mae cyfle prin wedi codi i unrhyw un sy'n awyddus i rentu llain o dir yn y rhandir a hynny am bris rhesymol iawn. Am ragor o fanylion cysylltwch ag Emlyn 'Pens' Jones cyn gynted â phosib ar:

07881 501137 neu
pens37@outlook.com



PIGION O'R WASG

Un pwnc llosg sydd wedi denu sylw'r wasg yn ystod yr wythnos a aeth hebio yw cyhoeddiad Priti Patel, Gweinidog y Swyddfa Gartref, ar drothwy'r Pasg, am y cynllun i hedfan ffoaduriaid oedd yn llwyddo i groesi'r sianel o Ffrainc i Loegr ar daith o 4,000 o filltiroedd i Rwanda. Ymhlith y rhai a feirniadodd y polisi hwn yn llym roedd Justin Welby, Archesgob Caergaint, gan ei ddisgrifio fel cynllun 'sy'n groes i natur Duw'. Er mai ymateb Archesgob Caergaint gafodd sylw pennaf y cyfryngau, fe gondemniwyd bwriad Llywodraeth San Steffan yr un mor llym gan arweinwyr Cristnogol a gwleidyddion yma yng Nghymru hefyd.

Ychydig wythnosau'n gynharach roedd dros 1,000 o arweinyddion ffydd ar draws gwledydd Prydain wedi anfon llythyr at y Prif Weinidog yn ymbilio arno i ailystyried y mesur Cenedligrwydd a Ffiniau oedd ar fin cael ei gyflwyno yn Nhŷ'r Arglwyddi gan ddatgan 'cyhyd ag y bydd gwrthdaro ac anghyfiawnder yn y byd, bydd bob amser bobl ar eu cythlwg yn ceisio lloches rhag rhyfel, erledigaeth a digofaint.' Ond yn hytrach na gwrandao ar gyngor doeth a chytbwys yr arweinwyr hyn, aed ati i ddyfeisio cynllun sydd hyd yn oed yn fwy dieflig ac anghyfiawn. Trwy olchi eu dwylo yn llwyr o'u cyfrifoldeb dyngarol. a llwgrwobrwyo Rwanda i dderbyn y ffoaduriaid ar eu rhan, mae Llywodraeth San Steffan yn ymddwyn yn union fel Peilat yn nigwyddiadau wythnos y Pasg.

Un sy'n mynegi ei farn yn gwbl ddiflwyn-ar-dafod ar gynllun y Llywodraeth yw awdur e-fwletin Cristnogaeth21 yr wythnos hon dan y teitl 'Cristnogaeth y Pasg' (www.cristnogaeth21.cymru). Mae'n agor ei gyfraniad trwy gyfeirio at drydariad Jacob Rees-Mogg ar Sul y Pasg yn ein hatgoffa bod Crist wedi atgyfodi - 'Haleliwia'. Yna mae'r bwletin yn symud ymlaen i ddiolch i Archesgob Caergaint am ei ddewrder yn dinoethi 'gweithredoedd gwrth-Gristnogol Llywodraeth Iwgr Boris Johnson'. Mae'n llym ei farn hefyd ar sylwedyddion ar hyd y blynyddoedd sydd bob amser yn barod iawn i feirniadu arweinwyr Cristnogol am ddatgan barn ar faterion gwleidyddol, ond heb weld dim o'i le ar i wleidyddion, megis Rees-Mogg, ddatgan barn ar faterion crefyddol. Prif neges y bwletin, fodd bynnag, yw dadlau bod dyletswydd arnom i feirniadu'r rhai sy'n eu disgrifio eu hunain fel Cristnogion ond nad yw eu hymddygiad yn deilwng o arweinyddion gwleidyddol sy'n tanseilio safonau bywyd cyhoeddus ac yn 'fygythiad gwirioneddol' i ddemocratiaeth.

Mae'n briodol cloi trwy ddyfynnu geiriau agoriadol y bwletin:

'Dwi'n hoffi'ch Crist chi,' meddai Mahatma Gandhi unwaith, 'ond dwi ddim yn hoffi'ch Cristnogion.'

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

CWRDD CHWARTER

7.30

Nos Fercher 25 Mai 2022
Capel y Tabernacl, Efail Isaf

*Lansiad Ymgyrch
Eglwysi
Dementia-gyfeillgar*

CROESO I BAWB



PANED A CHLONC

Dewch am glonc gyfeillgar ac hamddenol

CUPPA AND A CHAT

Come for a friendly and relaxed chat



Bob Dydd Mawrth

Every Tuesday

10.30-12.00

Y Ganolfan
Capel Tabernacl
The Vestry,
Tabernacl Chapel

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk